

Cytundebau rhyngwladol

Cytundebau a drafodwyd ar 5 Chwefror 2024

Chwefror 2024



1. Y cefndir

1. Mae'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn gyfrifol am gynnal gwaith craffu ar gytundebau rhyngwladol nad ydynt yn ymwneud â masnach yn y chweched Senedd.
2. Gall cytundebau rhyngwladol a lofnodir gan Lywodraeth y DU ymdrin â materion sydd o fewn cymhwysedd datganoledig neu faterion sydd â goblygiadau polisi sy'n bwysig i Gymru.
3. Mae'r Pwyllgor yn trafod yr effaith ar Gymru yn sgil cytundebau rhyngwladol a osodir yn Senedd y DU o dan y broses a sefydlwyd gan Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010 ("Deddf 2010"). Mae'n darparu cyfnod craffu cychwynnol o 21 diwrnod.
4. Mae ein hystyriaeth o gytundeb rhyngwladol yn ystyried y canlynol:
 - A yw'n ymwneud â chymhwysedd y Senedd; a/neu
 - a oedd unrhyw oblygiadau polisi posibl i Gymru.
5. Ar 5 Chwefror 2024¹, fe wnaethom ystyried tri cytundeb rhyngwladol a oedd wedi'u gosod yn ddiweddar yn Senedd y DU:
 - Confensiwn UNESCO ar Ddiogelu Treftadaeth Ddiwylliannol Anniriaethol
 - Diwygio'r Cytundeb sy'n Sefydlu'r Banc Ewropeaidd er Ailadeiladu a Datblygu
 - Y DU /y Philipinau: Cytundeb ar Drosglwyddo Personau a Ddedfrydwyd
6. Gwnaethom gytuno i gymryd camau pellach mewn perthynas ag un o'r cytundebau hyn. Mae manylion pob un o'r cytundebau, a'n camau gweithredu priodol, wedi'u nodi isod.
7. At hynny, gwnaethom ystyried adroddiad Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol Tŷ'r Cyffredin ar ei ymchwiliad ynghylch

¹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 5 Chwefror 2024

gwaith craffu seneddol ar gytundebau rhyngwladol yn yr 21ain ganrif, y
cyflwynodd y Pwyllgor dystiolaeth ysgrifenedig iddo.

2. Cytundebau y mae angen gweithredu pellach yn eu cylch

Confensiwn UNESCO ar Ddiogelu Treftadaeth Ddiwylliannol Anniriaethol

8. Gosodwyd y cytundeb rhyngwladol hwn yn Senedd y DU ar 11 Ionawr 2024. Y terfyn amser ar gyfer craffu arno, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010, yw 22 Chwefror 2024.

9. Diben y cytundeb hwn yw diogelu, sicrhau parch, a chodi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd treftadaeth ddiwylliannol anniriaethol, y mae'n darparu'r diffiniad a ganlyn ar ei gyfer:

*"The practices, representations, expressions, knowledge, skills – as well as the instruments, objects, artefacts and cultural spaces associated therewith – that communities, groups and, in some cases, individuals recognize as part of their cultural heritage. This intangible cultural heritage, transmitted from generation to generation, is constantly recreated by communities and groups in response to their environment, their interaction with nature and their history, and provides them with a sense of identity and continuity."*²

10. At hynny, mae'r Confensiwn yn rhestru pum categori o dreftadaeth o'r fath:

- Traddodiadau ac ymadroddion llafar, gan gynnwys iaith fel cyfrwng i'r dreftadaeth ddiwylliannol anniriaethol;
- y celfyddydau perfformio;
- arferion cymdeithasol, defodau a digwyddiadau gŵyl;
- gwybodaeth ac arferion yn ymwneud â natur a'r bydysawd; a hefyd
- crefftwaith traddodiadol.³

² Y Confensiwn ar Ddiogelu Treftadaeth Ddiwylliannol Anniriaethol, Erthygl 2, paragraff 1

³ Y Confensiwn ar Ddiogelu Treftadaeth Ddiwylliannol Anniriaethol, Erthygl 2, paragraff 2

- 11.** Wrth gadarnhau'r cytundeb, nod Llywodraeth y DU yw dangos ymrwymiad i roi mwy o gydnabyddiaeth i dreftadaeth ddiwylliannol anniriaethol ar lefel ddomestig, a darparu cyfle ar gyfer mwy o ymgysylltu rhyngwladol.⁴
- 12.** Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r cytundeb yn nodi bod Llywodraeth y DU yn bwriadu creu stocrestrau cydnaws ar gyfer pob un o bedair gwlad y DU, a fydd yn adlewyrchu traddodiadau a threftadaeth ddiwylliannol unigryw pob un. Mae'n cynnig, wedyn, i goladu'r rhain i'r Rhestr Genedlaethol o Dreftadaeth Anniriaethol yn y DU. At hynny, mae Llywodraeth y DU yn cynnig y bydd y cyhoedd a sefydliadau yn gallu cyflwyno eitemau i'w hystyried gan baneli cymeradwyo, a fydd yn cynnwys cynrychiolaeth o blith y gymuned a chyrrff cyhoeddus. Cynigir y bydd paneli ar gyfer pob cenedl.⁵
- 13.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi nad yw'r cytundeb yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw newid i ddeddfwriaeth ddomestig bresennol, nac unrhyw ddeddfwriaeth gael ei deddfu.⁶
- 14.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod Llywodraeth y DU, hefyd, wedi lansio ymgynghoriad cyhoeddus i lywio camau cychwynnol gweithredu'r cytundeb,⁷ gyda'r arolwg wedi'i ddatblygu a'i gytuno gyda'r llywodraethau datganoledig.⁸
- 15.** Er bod cysylltiadau rhyngwladol yn fater a gadwyd yn ôl, mae gweithredu cytundebau rhyngwladol mewn meysydd datganoledig yn fater datganoledig.
- 16.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn cadarnhau bod y cytundeb hwn yn ymwneud â diwylliant a threftadaeth, sy'n faterion datganoledig. Mae'r ymgynghoriad cyhoeddus ar weithrediad y cytundeb hefyd yn cyfeirio at greu categorïau ychwanegol at ddiben y cytundeb, gan gynnwys gemau traddodiadol a chwaraeon, sydd hefyd yn faterion datganoledig.⁹
- 17.** Gan fod y cytundeb yn ymwneud â materion datganoledig, mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod Llywodraeth y DU wedi ymgynghori â'r

⁴ [Llywodraeth y DU, Memorandwm Esboniadol: Y Confensiwn ar Ddiogelu'r Dreftadaeth Ddiwylliannol Anniriaethol](#), Ionawr 2024, paragraff 2.3

⁵ Llywodraeth y DU, Memorandwm Esboniadol: Y Confensiwn ar Ddiogelu'r Dreftadaeth Ddiwylliannol Anniriaethol, Ionawr 2024, paragraff 4.2

⁶ Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 5

⁷ Llywodraeth y DU, [Ymgynghoriad: Confensiwn 2003 UNESCO ar Ddiogelu Treftadaeth Ddiwylliannol Anniriaethol](#), Rhagfyr 2023

⁸ Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 10

⁹ Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 10

llywodraethau datganoledig ar ddrafftio'r cytundeb ac wedi rhannu'r testun drafft perthnasol cyn ei lofnodi.¹⁰

18. Er bod Llywodraeth y DU yn cydnabod yn y Memorandwm Esboniadol fod y cytundeb yn ymwneud â materion sydd wedi'u datganoli i Gymru, mae'n cadarnhau y byddai Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon Llywodraeth y DU yn chwarae rôl arweiniol ar weithredu'r broses hon, gan weithio gyda'r gweinyddiaethau datganoledig, a fydd yn goruchwyllo eu rhestrau eiddo.¹¹

19. Gan fod y cytundeb o fewn cymhwysedd datganoledig, byddem fel arfer yn cymryd camau pellach i gael rhagor o wybodaeth gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol wedi tynnu ein sylw at ei ohebiaeth i Lywodraeth Cymru, lle mae'n gofyn am ragor o wybodaeth mewn perthynas â'r cytundeb hwn.¹²

20. Gwnaethom, felly, gytuno i wneud y canlynol:

- rhannu ein dadansoddiad o'r cytundeb gyda'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol;
- dychwelyd at y cytundeb hwn yn y dyfodol ar ôl i'r Pwyllgor hwnnw ei ystyried ymhellach, ac unrhyw ymateb a gafwyd gan Lywodraeth Cymru.

¹⁰ Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 10

¹¹ Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 3

¹² [Llythyr oddi wrth y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol at Brif Weinidog Cymru](#), 12 Chwefror 2024

3. Cytundebau a nodwyd er gwybodaeth

Diwygio'r Cytundeb sy'n Sefydlu'r Banc Ewropeaidd er Ailadeiladu a Datblygu

- 21.** Gosodwyd y cytundeb rhyngwladol hwn ar 14 Rhagfyr 2023. Ei derfyn amser o ran gwaith craffu, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010, oedd 8 Chwefror 2024.
- 22.** Mae'r DU yn un o sylfaenwyr y Banc Ewropeaidd er Ailadeiladu a Datblygu ("y Banc"), sef banc datblygu amlochrog a sefydlwyd yn 1991 ar ôl cwmpwr yr Undeb Sofietaidd. Ers hynny mae wedi ehangu i 38 o wledydd yng Nghanolbarth Asia, y Cawcasws a De a Dwyrain Môr y Canoldir, lle mae ei weithrediadau yn anelu at feithrin pontio i economïau marchnad agored a hyrwyddo twf y sector preifat.
- 23.** Pwrpas y cytundeb hwn yw diwygio'r cytundeb sy'n sefydlu'r Banc i ymestyn cwmpas daearyddol ei weithrediadau i Affrica Is-Sahara ac Irac, i ddileu terfynau cyfalaf ar weithrediadau arferol ac i ymddiried yn y Bwrdd Cyfarwyddwyr i gynnal terfynau priodol.
- 24.** Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r cytundeb yn egluro, trwy ehangu gweithrediadau i Affrica Is-Sahara ac Irac, y bydd y Banc yn debygol o ddechrau benthycu i'r gwledydd hyn, a rhagwelir mai 2025 fydd y dyddiad cychwyn.¹³
- 25.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn cadarnhau bod materion y cytundeb wedi'u cadw'n ôl yn llawn ac nad oes unrhyw oblygiadau i'r llywodraethau datganoledig. O'r herwydd, ni ymgynghorwyd â'r llywodraethau datganoledig mewn perthynas â'r cytundeb.¹⁴
- 26.** Gan fod y cytundeb rhyngwladol hwn yn ymwneud â materion nad ydynt wedi'u datganoli i'r Senedd, sef gwasanaethau ariannol a bancio, cytunwyd i nodi'r cytundeb hwn er gwybodaeth yn unig.

¹³ Llywodraeth y DU, Memorandwm Esboniadol: Diwygiad i'r Cytundeb sy'n Sefydlu'r Banc Ewropeaidd er Ailadeiladu a Datblygu, Rhagfyr 2023

¹⁴ Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 10

Y DU / y Philipinau: Cytundeb ar Drosglwyddo Personau a Ddedfrydwyd

- 27.** Gosodwyd y cytundeb rhyngwladol hwn ar 22 Ionawr 2024. Ei ddyddiad cau ar gyfer gwaith craffu, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010, yw 1 Mawrth 2024.
- 28.** Mae'r cytundeb hwn yn caniatáu ar gyfer trosglwyddo gwladolion Prydeinig wedi'u dedfrydu o Ynysoedd y Philipinau i'r DU ac ar gyfer trosglwyddo gwladolion Ffilipinaidd wedi'u dedfrydu o'r DU i Ynysoedd y Philipinau, lle mae'r person a ddedfrydwyd yn gofyn am gael trosglwyddo.
- 29.** Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r cytundeb yn cadarnhau nad oes angen deddfwriaeth newydd i alluogi'r Deyrnas Unedig i roi'r cytundeb ar waith.¹⁵
- 30.** Nid yw'r cytundeb yn ymwneud â materion sydd wedi'u datganoli i Gymru, gan ei fod yn ymwneud â throsglwyddo carcharorion. Mae carchardai a rheoli personau a gyhuddir neu a gollfarnir o dramgwyddau yn faterion a gadwyd yn ôl sy'n dod o dan y pennawd Cyfiawnder yn Atodlen 7A i'r *Deddf Llywodraeth Cymru 2006*.
- 31.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn cydnabod bod y cytundeb yn ymdrin â phwnc sydd wedi'i gadw'n ôl, ond mae'n nodi bod iddo oblygiadau i'r llywodraethau datganoledig pan fyddant yn trosglwyddo carcharorion o dan y cytundeb.¹⁶
- 32.** Rhannwyd y testun drafft perthnasol gyda llywodraethau'r Alban a Gogledd Iwerddon cyn iddo gael ei lofnodi. Fodd bynnag, gan nad yw cyfiawnder wedi'i ddatganoli i Gymru, mae'r Memorandwm Esboniadol yn cadarnhau bod y testun wedi'i gyfeirio at Lywodraeth Cymru er gwybodaeth yn unig.¹⁷
- 33.** Gwnaethom gytuno i nodi'r cytundeb er gwybodaeth yn unig.

¹⁵ [Llywodraeth y DU, Explanatory Memorandum: Y DU / y Philipinau: Cytundeb ar Drosglwyddo Personau a Ddedfrydwyd](#)

¹⁶ Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 10.2

¹⁷ Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 10.2

4. Adroddiad Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol Tŷ'r Cyffredin: Craffu Seneddol ar Gytundebau Rhyngwladol yn yr 21ain ganrif

- 34.** Yn 2021, lansiodd Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol Tŷ'r Cyffredin (neu "PACAC") ymchwiliad o ran gwaith craffu ar Gytuniadau Rhyngwladol a chytundebau rhyngwladol eraill yn yr 21ain ganrif¹⁸.
- 35.** Ystyriodd yr ymchwiliad sut y gellid cynnal gwaith craffu effeithiol ar gytuniadau a threfniadau rhyngwladol eraill (fel Memorandwm Cydddealltwriaeth) yn y DU, gan fod y DU bellach wedi gadael yr UE.
- 36.** Cyflwynwyd tystiolaeth ysgrifenedig gennym i'r ymchwiliad ym mis Mehefin 2021¹⁹.
- 37.** Ar 22 Tachwedd 2022, rhoddodd Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor hwn, dystiolaeth lafar i'r ymchwiliad, gan nodi'r materion allweddol a nodwyd yn ystod ein gwaith craffu ar gytundebau rhyngwladol.
- 38.** Cyhoeddodd y Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol ei adroddiad ar yr ymchwiliad ar 23 Ionawr 2024²⁰.
- 39.** Yn ei adroddiad, cyfeiriodd y Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol at y dystiolaeth lafar a ddarparwyd gan y Cadeirydd lle cadarnhaodd, yn absenoldeb rôl ffurfiol yn y broses graffu ar y cytuniadau, fod y Senedd wedi sefydlu system i fonitro a chraffu ar yr holl gytuniadau sy'n effeithio ar gymhwysedd datganoledig.
- 40.** At hynny, dywedodd y Cadeirydd mai'r rhwystr mwyaf arwyddocaol i'r gwaith craffu mewn meysydd o gymhwysedd datganoledig yw diffyg rhannu gwybodaeth ar y lefel rynglywodraethol. Cadarnhaodd y Cadeirydd hefyd fod y deddfwrfeydd datganoledig angen hysbysiad o gytundebau sydd ar y gweill a

¹⁸ Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol Tŷ'r Cyffredin: *The Scrutiny of International Treaties and other international agreements in the 21st century*

¹⁹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad: Tystiolaeth ysgrifenedig, Mehefin 2021

²⁰ Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol Tŷ'r Cyffredin: *Parliamentary Scrutiny of International Agreements in the 21st century*, Ionawr 2024

digon o amser i wneud gwaith craffu a rhannu eu barn, er mwyn cyfrannu'n llawn at y broses graffu.

41. Daeth yr adroddiad i'r casgliad a ganlyn:

“While the legal authority and responsibility for international agreements rests with the UK Government, devolved governments and legislatures will necessarily have a legitimate interest where agreements intersect with areas of devolved competence.”²¹

42. Mae'r adroddiad yn cydnabod pwysigrwydd gwaith craffu gan y deddfwrfeydd datganoledig ar gytundebau rhyngwladol sy'n ymwneud â meysydd o gymhwysedd datganoledig, ac mae'n gwneud nifer o argymhellion ar waith craffu ar gytundebau rhyngwladol sy'n berthnasol i ddeddfwrfeydd datganoledig, gan gynnwys y dylid galluogi amser ar gyfer gwaith craffu gan ddeddfwrfeydd datganoledig wrth osod y cyfnod craffu ar gyfer cytuniadau.

43. Rydym yn croesawu argymhellion y Pwyllgor.

²¹ Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol Tŷ'r Cyffredin: *Parliamentary Scrutiny of International Agreements in the 21st century*, Crynodeb